# EVANS, WILLIAM (fl. 1768-1776), geiriadurwr

**Enw:** William Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** geiriadurwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Tybir ei fod o Cefngwili, plwyf Llanedi, Sir Gaerfyrddin - ar hyn gweler gohebiaeth yn *Yr Ymofynydd*, Rhagfyr 1887, 268-70, 275-6, Ionawr 1888, 19-20, a Chwefror 1888 43-4. Dywed W. D. Jeremy i Evans fod yn efrydydd yn academi Caerfyrddin, 1767-72. Pan oedd yno cyhoeddwyd ganddo *A new English-Welsh dictionary ...* (Carmarthen, 1771).

Bu'n gofalu am eglwys Bresbyteraidd yn Sherborne, Dorset, am beth amser. Yn 1776, fodd bynnag, oblegid bod ei iechyd yn gwanychu, symudodd i ofalu am eglwys yn Moreton-Hampstead, Dyfnaint, eithr tybir iddo farw yn fuan ar ôl symud yno.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Yr Ymofynnydd*, 1887, 1888


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8008695


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu